

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Mehefin 2020

Anwyl Mr Ramsay,

COVID-19

Diolch eto am yr amser y gwnaeth y pwyllgor ei gysegru i edrych ar ymateb Llywodraeth Cymru i argyfwng COVID-19, sy'n fater pwysig iawn. Fel y cytunwyd, rwyf wedi amgáu:

- Manylion swyddogaeth a chylch gorchwyl y grŵp ExCOVID sy'n goruchwylio ac yn cydlynu camau gweithredu gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfwng presennol – atodiad A.
- Prosesau a chynigion archwilio mewnol yn y blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21 – atodiad B;
- Yr omniograff sy'n amlinellu fframwaith llywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â phopeth sy'n ymwneud â COVID-19, y cyfeiriais ato yn ystod y PAC ond nad oeddwn yn gallu ei rannu dros gyswllt fideo – atodiad C.

Fe fyddaf yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor yn unigol cyn gynted â phosibl ynglŷn â'r adroddiad i'r llythyrau a anfonwyd i'r cyfeiriadau anghywir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chanlyniadau'r Ymateb i'r Arolwg Argyfwng.




BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Yn gywir, 

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

Cylch Gorchwyl ExCOVID Swyddogaeth

Goruchwyllo a chydlynu camau gweithredu gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru i sicrhau bod polisïau allweddol ac amcanion gweithredol yn cael eu cyflawni, ac felly bod cefnogaeth effeithiol yn cael ei roi i Weinidogion i'w cynorthwyo i ymdrin ag argyfwng COVID-19. Mae hyn yn cynnwys;

- Rhoi sicrwydd i'r Ysgrifennydd Parhaol bod y gwasanaeth sifil yn gwneud popeth o fewn ei allu i reoli argyfwng COVID-19 ac yn diwallu disgwyliadau Gweinidogion
- Sicrhau bod blaenoriaethau polisi a gweithredol hanfodol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni
- Goruchwyllo ac adolygu portffolio ehangach darpariaeth polisi i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion argyfwng COVID-19 ac yn cael ei weithredu yn effeithiol;
- Sicrhau bod gwaith ar COVID-19 yn cael ei flaenoriaethu'n glir a chanfod a dileu enghreifftiau o ddyblygu ymdrech a gweithgarwch:
- Datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer datblygu polisïau, gan gynnwys yn y cyfnod adfer

Mae'r angen i wneud penderfyniadau yn gyflym yn golygu y bydd angen i'r Ysgrifennydd Parhaol neu staff uwch eraill wneud penderfyniadau y tu allan i gyfarfodydd ExCOVID o bryd i'w gilydd. Yn yr achosion hyn, bydd y penderfyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i ExCOVID cyn gynted â phosibl.

ExCOVID yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r ymateb Polisi COVID-19 sy'n cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Ymgynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog, Y Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru i fonitro ac arwain ymateb Llywodraeth Cymru i'r Coronafeirws – COVID-19.

Aelodaeth

Aelodau ExCo arferol yn ogystal â Reg Kilpatrick neu gynrychiolydd; Prif Swyddog Meddygol neu gynrychiolydd; Toby Mason neu gynrychiolydd; Tim Render; Pennaeth Tîm Prosiect COVID-19 neu gynrychiolydd.

Amllder y Cyfarfodydd

Fel arfer cynhelir cyfarfodydd o leiaf unwaith yr wythnos ac mor aml sydd angen. Bydd Aelodau yn cael cyfle i fynychu o bell.

Ysgrifenyddiaeth

Bydd gwasanaeth ysgrifenyddiaeth yn cael ei ddarparu gan Dîm Prosiect COVID-19



**BUDDSODDWRYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

SEFYLLFA ARCHWILIO MEWNOL

Blwyddyn Ariannol 2019/20

Mae'r rhaglen o waith archwilio ar gyfer 2019/20 wedi'i addasu i ganiatáu i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ystyried newidiadau sy'n deillio o baratodau Brexit. Oherwydd ansicrwydd ynglŷn â Brexit mewn meysydd polisi/busnes, gwnaethpwyd penderfyniad i wneud rhagor o waith sicrwydd cynghorol mewn modd hyblyg wrth i risgiau ddod yn gliriach yn ystod y flwyddyn, ac yn hytrach, canolbwyntio gwaith archwilio ar systemau cyllid corfforaethol craidd a phrosesau busnes. Gwnaethpwyd digon o waith i ganiatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd ar gyfer y flwyddyn, er y cyfyngiadau ar waith archwilio yn ystod mis olaf y flwyddyn ariannol o ganlyniad i COVID-19.

Blwyddyn Ariannol 2020/21

1. Cefndir

Cyn mis Mawrth 2020, roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi diweddarau ei "Asesiad o Anghenion Archwilio" yn sylweddol i ganfod meysydd gweithgarwch Llywodraeth Cymru yr oedd yn dymuno eu hadolygu yn ystod 2020/21. Serch hynny, yn dilyn yr achosion o COVID-19 ac effaith sylweddol hyn ar bob agwedd o weithgarwch Llywodraeth Cymru, rydym wedi ailedrych ar y cynllun gwaith arfaethedig hwn.

2. Dull Archwilio Diwygiedig

Mae'r rhan fwyaf o adnoddau'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi'u hadleoli i gefnogi agweddau o ymateb brys yn y gwahanol rannau o'r sefydliad, ar y sail nad yw bellach yn bosibl i wneud gwaith archwilio fel y cynlluniwyd. Serch hynny, mae tîm craidd o archwilwyr mewnol yn dal i fod yn gweithio ar weithgarwch archwilio a sicrwydd yn ystod argyfwng COVID.

Amcan y "Tîm Craidd" Archwilio Mewnol yw cefnogi a chynghori ar fesurau newydd sy'n deillio o argyfwng COVID-19 a chael sicrwydd ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu strwythurau/fforymau newydd, addasu systemau neu brosesau presennol, newidiadau i drefniadau dirprwyo a rheolaethau a threfniadau cyllido newydd. Bydd y Tîm Craidd yn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r amrywiol gynlluniau newydd i fynd i'r afael â gwahanol agweddau'r argyfwng a hefyd rhoi sicrwydd ynglŷn ag a yw'r mesurau sy'n cael eu cymryd wedi'u cynllunio a'u rheoli gan roi ystyriaeth lawn i



BUDDSODDWR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

addasrwydd, rheoleidd-dra a gwerth am arian mewn perthynas â gwariant cyhoeddus. Bydd ein ffocws allweddol ar adnabod a rheoli risg.

O ran y dull archwilio, mae “arsylwi” wedi bod yn ddull dilys ers amser i archwilwyr ei ddefnyddio i geisio sicrwydd. Mae’r defnydd o’r dull hwn wedi lleihau wrth i ragor o brosesau a rheolaethau ddatblygu i fod yn gyfrifiadurol ac yna yn ddigidol. Serch hynny, dyma’r dull archwilio cywir i’w ddefnyddio mewn sefyllfa o argyfwng. Gall tîm y Gwasanaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd ar y newidiadau a gytunwyd i fynd i’r afael â COVID-19 drwy “arsylwi” ar y trywydd archwilio ar gyfer penderfyniadau mawr, gan gynnwys cynhyrchu dogfennau newydd a dosbarthu negeseuon corfforaethol i roi cyfarwyddyd a gosod disgwyliadau. Gall hefyd gael sicrwydd drwy arsylwi pwyllgorau allweddol a chynnal adolygiadau o brosesau busnes ar y trefniant newydd sydd ar waith. Mewn ffordd, mae hyn yn cynhyrchu sicrwydd “amser real”. Mae hefyd yn rhoi cyfle i’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol nodi’r “gwersi a ddysgwyd” sy’n cael eu cofnodi wrth iddynt gael eu hadnabod. Pan fo angen, bydd argymhellion yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth i faterion ddod i’r amlwg. Mae gwersi eraill yn cael eu cofnodi ar gyfer ymarferion gwersi a ddysgwyd diweddarach i gyfrannu at wella prosesau a gweithdrefnau.

Yn ogystal ag arsylwi, ar y cyfle cyntaf posibl byddwn hefyd yn defnyddio dull mwy “trafodaethol” (wedi’i gefnogi gan ddadansoddeg data) i wirio yn ôl weithredol y broses o roi dirprwyaethau a rheolaethau mewnol wedi’u haddasu ar waith a chanfod unrhyw anghysondeb neu bryderon. Gall peth o’r gwaith hwn gynnwys rhannu data gyda chyrrff cyhoeddus eraill ac rydym eisoes yn trafod gyda Swyddfa Archwilio Cymru i edrych ar sut y gellir cyflawni hyn drwy ehangu gweithdrefnau rhannu data y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae gallu gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal ac mae’r Gwasanaeth Gwrth-Dwyll eisoes wedi cyhoeddi canllaw ymwybyddiaeth twyll rhagweithiol ac wrthi’n cyfrannu at Fwletin Diogelwch newydd sy’n canolbwyntio ar dwyll seiber a risgiau seiber eraill yn ystod COVID-19.

Rydym hefyd yn cadw mewn cysylltiad agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru, ein sefydliad proffesiynol (y Sefydliad Archwilwyr Mewnol), y Bwrdd Cyngori ar Safonau Archwilio Mewnol (IASAB) sy’n gyfrifol am Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a Phroffesiwn Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAP) ar gyfer canllawiau “pennaeth proffesiwn” ac i rannu ein dulliau priodol o roi sicrwydd. Hyd yma rydym yn cyd-fynd yn rhesymol â’n cydweithwyr GIAP.

Rydym yn cydnabod y canlynol:

- Mae adleoliadau’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn capasiti “gweithredol” felly ni allwn gynnal ein lefel arferol o annibyniaeth a gwrthrychedd fel archwilwyr



BUDDSODDWYR | **INVESTORS**
MEWN POBL | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio’ch data, yn unol â’r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

– dim ond y Tîm Craidd presennol sy'n gallu gwneud hyn – ond mae gennym eisoes weithdrefnau ar waith i reoli gwrthdaro buddiannau o'r fath yn effeithiol a defnyddio'r profiadau hyn i gyfrannu at unrhyw ymarferion gwersi a ddysgwyd yn y dyfodol.

- Mae'r Tîm Craidd sy'n weddill yn fach iawn ac ni allwn fod yn siŵr ar hyn o bryd a fydd yn ddigonol i sicrhau trosolwg effeithiol o'r holl newidiadau llywodraethu a rheolaeth ond byddwn yn adolygu hyn yn gyson.
- Efallai y byddwn yn cael anhawster sicrhau bod ein "gwybodaeth fusnes" am fesurau newydd yn gyfredol. Byddwn yn dibynnu ar uwch swyddogion ac unigolion sy'n gwneud penderfyniadau i roi gwybod inni am newidiadau allweddol i drefniadau llywodraethu a rheolaeth. Ond drwy gadw mewn cysylltiad agos â chydweithwyr Cyllid a Llywodraethu a'r Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, nid ydym yn disgwyl y bydd hon yn her sylweddol yn seiliedig ar ein profiad hyd yma.

3. "Busnes fel Arfer"

Gan fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn awr wedi trefnu ei ymateb i'r argyfwng COVID-19 a'n bod ni'n deall sut y mae'r sefydliad yn ymateb, rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o'r gwaith y byddem fel arall wedi'i wneud yn ystod 2020/21 i ganfod:

- unrhyw archwiliadau rheoleiddio y mae angen inni ymgymryd â nhw (fel yr adolygiad o'r archwiliad pensiynau blynyddol);
- meysydd allweddol o weithgarwch "arferol" sy'n parhau ac y tynnwyd sylw atynt ar gyfer eu harchwilio yn ystod 2020/21 ac sydd angen eu cynnwys o hyd yn rhaglen archwilio eleni.

Bydd angen inni sicrhau y gall archwiliadau yn y meysydd hyn barhau i fod yn rhan o'r rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn, er mwyn rhoi barn archwilio gymwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>